**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

# Polisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol - Medi 2025

## 1. Cyflwyniad

1.1. Cynhyrchwyd y polisi hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gydymffurfio â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) i ddarparu gwybodaeth am ei bolisïau a'r trefniadau y mae'n eu rhoi ar waith i gludo disgyblion a dysgwyr eraill.

1.2. Bwriad y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw darparu system gludiant ddibynadwy a fydd yn ceisio cludo disgyblion a dysgwyr eraill yn ddiogel, yn brydlon ac yn rhesymol o gyfforddus.

1.3. Ym mhob achos, y defnydd effeithiol o adnoddau fydd yn pennu pa gludiant a ddarperir

1.4. Gall cludiant gael ei ddarparu trwy wasanaethau cludiant ysgol dan gontract neu drwy wasanaethau cludiant cyhoeddus presennol, lle bo'n briodol.

## 2. Darparu cludiant am ddim

2.1. Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim ar gyfer disgyblion a dysgwyr eraill i'r ysgol addas agosaf, neu eu lleoliad addysg cymeradwy, os ydynt yn byw y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol honno. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r term ysgol addas agosaf yn golygu'r ysgol ddalgylch cyfrwng Saesneg leol, neu'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol wirfoddol (ysgol ffydd) agosaf.

2.2. Pan fo disgyblion yn mynychu ysgol heblaw am yr ysgol ddalgylch cyfrwng Saesneg neu'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu'r ysgol wirfoddol (ysgol ffydd) agosaf, o ganlyniad i ddewis y rhieni, mae'n rhaid deall mai'r rhieni fydd yn llwyr gyfrifol am gostau a threfniadau'r cludiant.

## 3. Pellteroedd cerdded statudol

3.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio'r 'pellter cerdded statudol' fel dwy filltir i ddisgyblion cynradd a thair milltir i ddisgyblion uwchradd sydd o fewn yr oedran ysgol gorfodol.

3.2. Mae polisi'r awdurdod lleol yn unol â phellteroedd statudol Llywodraeth Cymru.

3.3. Bydd pellteroedd yn cael eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf o gartref y disgybl i'r ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio system gwybodaeth ddaearyddol bwrpasol i fesur y pellteroedd hyn a sicrhau cywirdeb.

3.4. Er mwyn sicrhau bod llwybr cerdded sydd wedi'i asesu o'r newydd yn cael ei ystyried 'ar gael' i ddysgwr, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon ei fod

yn cyflawni'r gofynion a amlinellir yn y Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014. Yn unol â'r Mesur a'r canllawiau statudol a nodwyd, dim ond yr awdurdod lleol sy'n gallu nodi a yw llwybr cerdded yn cael ei ystyried 'ar gael'.

3.5. Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal asesiadau ffurfiol o'r prif lwybrau cerdded ar draws Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi nodi'r rhai sydd ar gael ar rhai nad ydynt ar gael. Mae llwybrau sy'n cael eu hystyried yn rhan o'r 'parth cyhoeddus' ac sydd â hanes o gael eu defnyddio gan aelodau o'r cyhoedd ers amser maith (er enghraifft, strydoedd preswyl/ystadau a llwybrau cerdded cymunedol wedi'u diffinio) yn cael eu hystyried ar gael oni bai eu bod wedi'u hasesu i'r gwrthwyneb.

3.6. Dyma grynodeb o'r polisi:

- Bydd disgyblion cynradd (dosbarth derbyn i flwyddyn 6) yn cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol os byddant yn mynychu eu hysgol cyfrwng Saesneg neu gyfrwng Cymraeg neu ysgol ffydd agosaf ac yn byw dwy filltir neu fwy o'r ysgol, neu os nad yw'r awdurdod lleol yn credu bod y llwybr cerdded o gartref y disgybl i'r ysgol ar gael.

- Bydd disgyblion uwchradd (Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11) yn cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol os byddant yn mynychu'r ysgol cyfrwng Saesneg neu gyfrwng Cymraeg neu ysgol ffydd agosaf ac yn byw tair milltir neu fwy o'r ysgol, neu os nad yw'r awdurdod lleol yn credu bod y llwybr cerdded o gartref y disgybl i'r ysgol ar gael.

- Bydd disgyblion meithrin yn cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol os byddant yn mynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu'r ysgol ffydd agosaf ac yn byw 1.5 milltir neu fwy o'r ysgol, neu os nad yw'r awdurdod lleol yn credu bod y llwybr cerdded o gartref y disgybl ar gael. Nid oes darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n mynychu unrhyw ysgolion cyfrwng Saesneg.

- Bydd disgyblion ôl-16 (chweched dosbarth) cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol os byddant yn mynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu'r ysgol ffydd agosaf ac yn byw tair milltir neu fwy o'r ysgol, neu os nad yw'r awdurdod lleol yn credu bod y llwybr cerdded o gartref y disgybl ar gael. Ni fydd darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n mynychu unrhyw ysgol cyfrwng Saesneg nac unrhyw goleg addysg bellach.

3.7. Bydd cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei drefnu i gyd-fynd â dechrau a diwedd diwrnod ysgol arferol ac yn cael ei ddarparu yn ystod tymor yr ysgol. Ni ddarperir unrhyw gludiant ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol nac ysgolion haf neu ymweliadau pontio.

3.8. Pan fo'r awdurdod lleol wedi trefnu i ddisgybl fynychu ysgol breswyl y tu allan i'r sir, darperir cludiant ar ddechrau a diwedd pob hanner tymor yn unig.

3.9. Darperir cludiant fel arfer o fannau codi mewn safleoedd bysiau cymeradwy, ar y llwybr cludiant cyhoeddus agosaf i gartref y dysgwr. I rai disgyblion gydag

anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae'n bosibl y bydd gwasanaeth o ddrws i ddrws yn cael ei ddarparu.

3.10. Nid yw'n bosibl i'r awdurdod lleol roi ystyriaeth i unrhyw sefyllfa ddomestig yn ymwneud â'r amser y mae brodyr neu chwiorydd yn defnyddio gwahanol gerbydau cludiant i'r un ysgolion neu ysgolion gwahanol.

## 4. Disgyblion meithrin

4.1. I sicrhau diogelwch disgyblion Meithrin cymwys, byddant yn teithio ar gludiant Meithrin penodol, neu dacsi neu fws mini gydag oedrannau cymysg. Ni all disgyblion meithrin deithio ar fysiau mawr, hyd yn oed os oes brodyr neu chwiorydd yn bresennol.

4.2. Pan mae disgyblion Meithrin yn mynychu ar sail lawn amser (Meithrin dau), byddant yn teithio i'r ysgol ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac yn dychwelyd ar ddiwedd sesiwn y prynhawn. Fodd bynnag, lle cynigir lleoedd ar sail ran amser i ddisgyblion Meithrin sy'n 'troi'n dair oed' (Meithrin un), cyfrifoldeb y rhieni fydd naill ai casglu eu plant ar ddiwedd sesiwn y bore neu sicrhau bod eu plant yn cael eu cludo i'r ysgol ar gyfer sesiwn y prynhawn.

## 5. Llwybrau cerdded sydd ar gael

5.1. Wrth bennu diogelwch cymharol unrhyw lwybr cerdded i'r ysgol, mae'r awdurdod lleol yn cynnal asesiadau o'r peryglon y gallai plant eu hwynebu ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol.

5.2. Mae pob asesiad yn dilyn y Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014. Wrth i lwybrau gael eu hadolygu, gallai'r ddarpariaeth gael ei thynnu'n ôl, er enghraifft os nodwyd peryglon a fyddai'n gofyn am hynny.

5.3. Bydd hwn wedyn yn cael ei ystyried yn llwybr cerdded diogel sydd wedi'i nodi ac sydd ar gael.

5.4. Bydd rhieni'n cael o leiaf un tymor o rybudd cyn i'r cludiant gael ei dynnu'n ôl, a threfnir i dynnu unrhyw gludiant yn ôl fel arfer i gyd-fynd â dechrau blwyddyn academaidd newydd.

## 6. Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) / Anableddau

6.1. Darperir cludiant am ddim i bob dysgwr sy'n mynychu ysgolion arbennig, unedau atgyfeirio disgyblion a chanolfannau adnoddau dysgu nad ydynt wedi'u lleoli yn eu hysgolion dalgylch, yn unol â pholisi cytunedig yr awdurdod lleol ar bellteroedd cerdded.

6.2. Fe allai dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd, ac nad ydynt yn gymwys fel arall i gael cludiant am ddim, fod yn gymwys i gael cludiant am ddim os caiff eu cais ei ategu gan dystiolaeth briodol a gadarnhawyd gan Wasanaeth Cefnogi Dysgwyr yr awdurdod lleol.

6.3. Gallai dysgwyr ag anableddau (yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010) gael yr hawl i gymorth gyda chludiant o'r cartref i ysgol briodol er nad yw'r trefniant yn bodloni meini prawf yr awdurdod lleol ar bellterau cerdded diogel. Mae darpariaeth o'r fath yn amodol ar gymeradwyaeth gan Wasanaeth Cefnogi Dysgwyr yr awdurdod. Mae'n rhaid i unrhyw atgyfeiriadau o'r fath gael eu hategu â thystiolaeth briodol.

6.4. Gallai darpariaeth ar gyfer ysgol arbennig neu leoliad addysg arall a gytunir gynnwys cludiant y tu hwnt i 16 mlwydd oed os caiff ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol.

6.5. Bydd y dull cludiant a ddarperir yn cael ei bennu gan anghenion y dysgwr.

## 7. Trefniadau ar draws ffiniau

7.1. Gellir darparu cludiant ar gyfer dysgwyr cymwys sy'n mynychu ysgolion mewn awdurdodau lleol cyfagos, lle mae mynychu ysgolion o'r fath yn gyson â Pholisi Derbyn yr awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn y maent yn dechrau'r ysgol.

7.2. Fodd bynnag, ni ddarperir cludiant i ddisgyblion sy'n dymuno mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau lleol eraill.

7.3. Bydd disgyblion sy'n ceisio addysg ffydd yr Eglwys yng Nghymru yn cael cludiant i Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn unol â'r pellteroedd statudol.

7.4. Gall disgyblion a fu'n mynychu Ysgol Gynradd Abercerdin fel ysgol ddalgylch cyfrwng Saesneg leol, fynychu Ysgol Gymuned Tonyrefail a darperir cludiant yn unol â'r pellteroedd statudol.

## 8. Ysgolion lle ceir goralw

8.1. Os nad oes modd derbyn disgybl yn ei ysgol ddalgylch cyfrwng Saesneg neu'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol ffydd agosaf sydd fwyaf addas oherwydd bod y flwyddyn ysgol berthnasol yn llawn, ac o ganlyniad yn gorfod mynychu ysgol arall y tu  hwnt i bellter cerdded o'r cartref, darperir cludiant i'r ysgol addas agosaf nesaf a bydd cymhwysedd yn ddibynnol ar bellteroedd statudol. Mae'n bosibl na fydd hyn yn cyd-fynd â dewis ysgol y rhiant/gofalwr.

8.2. <u>Os bydd rhieni/gofalwyr yn arfer eu hawl i anfon eu plentyn i ysgol nad yw'n cael ei ystyried gan yr awdurdod fel yr ysgol addas agosaf nesaf, bydd y rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am gostau a threfniadau cludiant.</u>

## 9. Trefniadau arbennig – ceisiadau yn ôl disgresiwn

9.1. Os bydd rhieni/gofalwyr yn ystyried bod unrhyw amgylchiadau arbennig mewn perthynas â'u plentyn na fyddai fel arfer yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, fe'u cynghorir i wneud cais i'r awdurdod lleol i ystyried arfer ei ddisgresiwn i helpu i ddarparu cludiant am gyfnodau byr.

9.2. Dim ond yr amgylchiadau a wynebir gan y disgybl y gall yr awdurdod lleol eu hystyried. Ni all yr awdurdod lleol dderbyn unrhyw amgylchiadau a wynebir gan rieni/gofalwyr neu aelodau eraill o'r teulu, yn enwedig yr amgylchiadau hynny sy'n ymwneud â threfniadau domestig neu waith.

9.3. Caiff pob cais ei ystyried yn ôl ei rinweddau.

9.4. Pan fo ceisiadau'n ymwneud â materion meddygol a wynebir gan ddisgybl, gellir darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol neu leoliad addysg arall am gyfnodau byr yn unig. Mae'n rhaid i gais o'r fath gael ei ategu gan lythyr gan ymarferydd meddygol cymwys, ac mae'n rhaid iddo argymell cludiant am gyfnod penodol o amser yn glir. Bydd tystiolaeth o'r fath yn destun craffu cyn i'r awdurdod lleol dderbyn y cais. Os caiff y cais ei dderbyn, bydd y ddarpariaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac ni fydd yn para mwy nag un flwyddyn ysgol.

9.5. Mae'n rhaid gwneud cais am drefniant o'r fath i'r awdurdod lleol gan ddefnyddio'r ffurflen gais am gludiant o'r cartref i'r ysgol yn ôl disgresiwn.

9.6. Dylai rhieni e-bostio pupilservices@bridgend.gov.uk am gyngor pellach ynglŷn â sut i wneud cais.

## 10. Cynllun lleoedd am dâl

10.1. Nid yw'r awdurdod lleol yn gallu cynnig unrhyw leoedd dros ben ar fws o ganlyniad i effaith y Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus.

10.2. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd y nifer o ddisgyblion a gaiff eu cario gan yr awdurdod lleol mewn rhai cerbydau llai megis tacsis a bysiau mini yn llai na chapasiti'r cerbyd a ddefnyddir. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y gallai'r awdurdod lleol gynnig y lleoedd dros ben i ddisgyblion eraill.

10.3. Mae'n rhaid deall nad yw darparu'r cyfleuster hwn yn cynrychioli ymrwymiad ar ran yr awdurdod lleol, ac o gofio bod y ddarpariaeth yn gwbl ddibynnol ar y lle sydd ar gael yn y cerbyd a ddefnyddir, gellir tynnu'r cyfleuster yn ôl yn gymharol fyr rybudd.

10.4. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cadw'r hawl i dynnu lle am dâl yn ôl mewn achosion lle mae'r rhiant/gofalwr yn gwrthod talu'r gost. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried hanes talu blaenorol y rhiant/gofalwr wrth ystyried cais newydd. Pan fo rhiant/gofalwr wedi gwrthod neu fethu â thalu mewn blynyddoedd blaenorol, gallai hyn arwain at wrthod y cais newydd.

10.5. Os bydd yr awdurdod lleol yn pennu y byddai'n amhriodol i gynnig lle am dâl waeth beth fo argaeledd y lleoedd dros ben mewn unrhyw gerbyd, mae'n cadw'r hawl i wneud hynny.

10.6. Cynghorir rhieni/gofalwyr i gysylltu â'r Tîm Cludiant Ysgolion schooltransport@bridgend.gov.uk ynghylch argaeledd lleoedd am dâl mewn tacsis neu fysiau mini.

## 11. Trosglwyddo i ysgol arall – trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol

11.1. Pan fo disgyblion yn symud tŷ ac nad yw'r ysgol yn cael ei hystyried gan yr awdurdod lleol fel ysgol ddalgylch ar eu cyfer neu'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol ffydd addas agosaf atynt, ni ddarperir cludiant ysgol am ddim os byddant yn symud yn ystod addysg gynradd y disgyblion neu ym Mlynyddoedd 7, 8 neu 9 o'u haddysg uwchradd.

11.2. I ddisgyblion sy'n symud ty ar ôl hanner tymor yr Hydref ym Mlwyddyn 10 neu ym Mlwyddyn 11, 12 neu 13, bydd cymhwysedd ar gyfer cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ystyried fesul achos unigol. Os caiff y cais ei gymeradwyo, darperir pàs bws fel arfer.

## 12. Monitro a'r drefn gwynion

12.1. Eir ati ar unwaith i ymchwilio i unrhyw gwynion y bydd yr awdurdod lleol yn eu derbyn gan rieni neu ofalwyr am wasanaethau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Os caiff y gŵyn ei chadarnhau, bydd y camau angenrheidiol a phriodol yn cael eu cymryd yn erbyn gweithredwyr cludiant ysgol neu staff y cerbyd cludo yn unol â thelerau ac amodau'r contract, fel mater o flaenoriaeth.

12.2. Dylai rhieni/gofalwyr gyflwyno eu cwyn yn ysgrifenedig a'i anfon at schooltransport@bridgend.gov.uk

## 13. Cludiant o'r cartref i'r coleg

13.1. Nid yw unrhyw fyfyrwyr colegau addysg bellach yn gymwys i gael cludiant am ddim.

## 14. Ymddygiad ar gerbydau cludiant i'r ysgol

14.1. Mae'r awdurdod lleol yn gweithredu polisi 'dim goddefgarwch' o ran ymddygiad gwael ar gludiant penodol a ddarperir o'r cartref i'r ysgol gan yr awdurdod.

14.2. Dylai rhieni/gofalwyr ymgyfarwyddo gyda'r Cod Ymarfer Teithio. Mae'n annog teithio'n ddiogel i'r ysgol ac yn nodi safonau ymddygiad disgwyliedig disgyblion.

14.3. Os nad yw disgyblion yn dilyn y cod, gallai'r awdurdod lleol gymryd camau yn eu herbyn er eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill. Mewn amgylchiadau lle bo ymddygiad disgybl wedi cyrraedd y trothwy hwn, bydd yr awdurdod lleol yn cynghori'r rhieni y bydd hawl eu plentyn i gludiant i'r ysgol yn cael ei dynnu'n ôl am gyfnod a bennir gan yr awdurdod lleol. Mewn sefyllfa o'r fath, cyfrifoldeb y rhieni fydd cludo eu plentyn i'r ysgol.

14.4. Mae'n bwysig bod disgyblion, rhieni a gofalwyr yn deall bod ymddygiad gwael ar gludiant o'r cartref i'r ysgol hefyd yn gallu arwain at atal cludiant am gyfnod penodol neu yn yr achosion mwyaf sylweddol, gwaharddiad parhaol o'r ysgol.

## 15. Cynllun Dim pàs, dim teithio

15.1. Mae pob disgybl sy'n defnyddio bysiau ysgol yr awdurdod lleol yn derbyn pàs bws penodol. Dim ond disgyblion sy'n gymwys i deithio a gaiff wneud hynny. Bydd unrhyw ddisgybl sy'n ceisio mynd ar fws ysgol heb bàs cyfredol yn cael ei wrthod.

15.2. Os caiff y pàs yn cael ei golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi, bydd angen i rieni/gofalwyr gysylltu gyda derbynfa'r ysgol, a fydd yn darparu cyngor pellach ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud.

15.3. Codir ffi o £10 i adnewyddu pàs bws.

15.4. Dim ond ar y llwybr a nodir ar y pàs y gellir defnyddio'r pàs bws.